

# **Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Practis Deintyddol Bae Cemaes /  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi  
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 9 Mai 2017

Dyddiad cyhoeddi: 10 Awst 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

|    |  |    |
|----|--|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom .....  | 5  |
| 2. | Crynodeb o'n harolygiad .....  | 6  |
| 3. | Yr hyn a ganfuom.....  | 7  |
|    | Ansawdd profiad y claf .....   | 7  |
|    | Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....                                    | 11 |
|    | Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....                                     | 15 |
| 4. | Beth sydd nesaf? .....   | 17 |
| 5. | Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....                               | 18 |
|    | Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad . | 19 |
|    | Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....                                  | 20 |
|    | Atodiad C – Cynllun gwella.....  | 21 |

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod pobl Cymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiad cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu'n agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail yr hyn rydym yn ei weld
- Cydweithredol: rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull o weithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Mynegi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Bae Cemaes yn 1 The Old Lookout, Bae Cemaes, Ynys Môn, LL67 0NF, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 9 Mai 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad) ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld rhagor o fanylion am sut rydym yn cynnal archwiliadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelwyd tystiolaeth bod practis deintyddol Bae Cemaes yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff ymroddedig, proffesiynol a chyfeillgar. Roedd yr adborth a gawsom yn cadarnhau bod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roedden nhw'n ei dderbyn.

Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn olau ac yn awyrog. Roedd gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Dyma'r hyn a welsom oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.
- Gwelsom dystiolaeth fod hwn yn wasanaeth a reolir yn dda iawn gyda systemau effeithiol i gefnogi'r gwaith o reoli ac arwain y practis yn gyffredinol.
- Roedd y tîm staff yn ymddangos yn hapus iawn yn eu rolau, roeddent yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, ac roedd ganddynt ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.
- Cofnodion clinigol da iawn.
- Roedd cyfleusterau yn yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys digon o offer ac roeddent yn amlwg yn lân, yn daclus ac yn drefnus.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi amrywiaeth o archwiliadau clinigol ar waith gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella.
- Sicrhau bod hyfforddiant yr holl staff yn gyfredol mewn ymbelydredd ïoneiddio ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Bae Cemaes yn cynnig gwasanaethau i gleifion yn ardal Ynys Môn. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd a saith nyrs ddeintyddol, ac mae dau o'r rhain yn nyrsys deintyddol dan hyfforddiant.

Mae'r practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

#### Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Yn gyffredinol, gwelwyd tystiolaeth bod Practis Deintyddol Bae Cemaes yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff ymroddedig, proffesiynol a chyfeillgar.

Roedd yr adborth a gawsom yn cadarnhau bod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roedden nhw'n ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 21. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*'Wedi cael gofal rhagorol'*

*'Hapus iawn gyda phob agwedd ar y gwasanaeth a'r staff.  
Dim angen unrhyw wella'*

*'Yr wyf yn gwbl fodlon. Diolch i bawb'*

*'Staff bob amser yn rhagorol'*

*'Nid oes angen unrhyw welliant i'r gwasanaeth'*

*'Mae hwn yn bractis dymunol ac effeithlon iawn. Ni allaf feddwl am unrhyw ffordd i wella'r practis'*

## **Cadw'n iach**

Roedd digon o wybodaeth hybu iechyd pwrpasol ar gael, ac roedd hyn yn golygu fod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cefnogi i ofalu am hylendid y geg eu hunain. Roedd posteri a thafenni gwybodaeth amrywiol yn cael eu harddangos, a oedd yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol a gwybodaeth am iechyd y geg. Roedd arwyddion dim ysmegu yn cael eu harddangos yn y practis. Roedd rhestrau prisiau hefyd i'w gweld yn amlwg yn yr ardal aros / y dderbynfa.

## **Gofal ag urddas**

Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiaduron eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Gwelsom hefyd y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol a fabwysiadwyd gan yr holl staff tuag at gleifion.

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys ardaloedd i gleifion gael sgysiau preifat gyda staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu derbyn mewn preifatrwydd i ffwrdd oddi wrth y cleifion.

Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth (lle'r oedd cleifion yn cael gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) yn cael eu cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

## **Gwybodaeth i gleifion**

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o driniaethau deintyddol preifat a thriniaethau deintyddol y GIG.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi derbyn gwybodaeth am eu triniaeth unigol, gan gynnwys opsiynau triniaeth oedd ar gael. Fodd bynnag, dywedodd pum claf wrthym nad oeddent yn deall sut y cyfrifwyd cost y driniaeth. Nodwyd fod gwybodaeth ar brisiau ar gael i'w gweld yn ardal y dderbynfa, a olygai fod gan gleifion fynediad at wybodaeth ar faint y gallai eu triniaeth gostio.



Gwelsom hefyd dystiolaeth o gynllunio triniaeth ac opsiynau a nodwyd o fewn sampl o gofnodion cleifion yr edrychwyd arnynt. Golygai hyn fod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac roedd yn cael ei harddangos o amgylch ardal y dderbynfa a'r ardal aros.

Gwelsom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel i sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei hamddiffyn.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Gallai rhai staff yn y practis gyfathrebu â chleifion yn ddwyieithog. O'r 21 holiadur a gwblhawyd, dywedodd 18 o gleifion wrthym eu bod bob amser wedi gallu siarad gyda staff yn eu hiaith o ddewis. Roedd naw o gleifion yn siaradwyr Cymraeg ac, o'r rheini, cadarnhaodd pum claf eu bod bob amser yn gallu siarad â staff yn Gymraeg.

### **Gofal amserol**

Mae'r practis yn ceisio sicrhau y darperir gofal deintyddol bob amser mewn ffordd amserol ac arsylwyd hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd staff broses ar gyfer rhoi gwybod i gleifion am unrhyw oedi o ran amseroedd eu hapwyntiadau. Dywedodd cleifion y siaradwyd â nhw ar y diwrnod nad oeddent wedi profi unrhyw oedi mawr cyn cael eu gweld gan ddeintydd.

Roedd rhif argyfwng ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael pe byddai angen i gleifion gael triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos ger y brif fynedfa, roedd wedi'i nodi ar wefan y practis, ac roedd hefyd yn cael ei roi ar neges y peiriant ateb.

### **Gofal unigol**

#### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn cael digon o wybodaeth am gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Ystyriwyd sampl o gofnodion cleifion a gwelwyd fod yr holl opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a bod cleifion yn rhoi caniatâd ar gyfer y driniaeth.

Cadarnhaodd yr holl gleifion eu bod yn ymwneud cymaint ag y maen nhw'n ei ddymuno yn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth unigol. Gwelsom dystiolaeth o gynllunio triniaeth ac opsiynau yn cael eu trafod â chleifion.

Roedd hanes meddygol y cleifion yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau ar bob ymweliad. Nodwyd bod ffurflenni hanes meddygol cleifion yn cael eu sganio ac yn cael eu cadw ar wahân i nodiadau clinigol cleifion. Cynghorwyd y practis fod hanes meddygol cleifion yn ffurfio rhan o'r cofnod clinigol cyffredinol. Fe wnaethom argymhell i'r practis y dylai hanes meddygol y cleifion, ynghyd â'r ffurflen FP17 (datganiad y claf) wedi'i llofnodi, gael ei gadw gyda nodiadau clinigol unigol cleifion yn hytrach na chael ei gadw mewn lleoliad canolog.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid sganio ffurflenni hanes meddygol, ynghyd â ffurflenni FP17 wedi'u llofnodi, i mewn i nodiadau clinigol unigol cleifion.

#### Hawliau pobl

Nodwyd fod gan y practis bolisi cydraddoldeb pwrpasol ar waith.

Roedd y practis wedi'i leoli mewn adeilad dau lawr, gyda dwy ystafell driniaeth ar y llawr gwaelod ac un ar y llawr cyntaf. Gallai defnyddwyr cadeiriau olwyn gael mynediad at lefel llawr gwaelod y practis a chyrraedd y dderbynfa, yr ardal aros, cyfleusterau'r toiled a'r ddwy ystafell driniaeth.

#### Gwranddo a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith sy'n cwmpasu triniaeth breifat a thriniaeth y GIG. Roedd y weithdrefn gwyno er mwyn i gleifion godi pryder i'w gweld yn amlwg yn yr ardal aros ac roedd hefyd ar gael mewn taflen i gleifion fynd gyda nhw.

Trafodwyd mecanwaith y practis ar gyfer ceisio adborth gan gleifion yn rhagweithiol. Mae'r practis yn gwneud hyn drwy roi holiaduron i gleifion a hefyd rhoi blwch sylwadau / awgrymiadau yn yr ardal aros. Fe'n hysbyswyd gan y practis bod yr adborth yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd tîm. Cynghorwyd y practis gennym i arddangos dadansoddiad o adborth cleifion, gan ddangos i gleifion fod eu hadborth unigol wedi'i gasglu ac y cymerwyd camau gweithredu yn dilyn yr adborth i wella dysgu a datblygiad y gwasanaeth.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis gyhoeddi / arddangos dadansoddiad o adborth cleifion.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelwyd fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion.

Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn olau ac yn awyrog.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Yn gyffredinol, gwelwyd fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff oedd yn gweithio yn y practis, a'r cleifion oedd yn ymweld.

Roedd hi'n ymddangos bod yr adeilad yn cael ei gadw'n dda yn fewnol ac yn allanol. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân, yn daclus ac yn rhydd o beryglon amlwg.

Roedd un toiled unrhywiol ar gyfer defnydd cleifion ac un toiled ar gyfer staff. Roedd arwyddion clir ar gyfer y ddau gyfleuster ac roedden nhw'n amlwg yn lân. Fodd bynnag, nid oedd bin ar gyfer gwaredu cynhyrchion misglwyf ar gael yng nghyfleusterau'r staff. Cynghorwyd y practis hefyd i newid unrhyw finiau yn y toiledau gyda biniau pedal.

Nodwyd bod offer profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal yn briodol ac yn rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd offer diffodd tân wedi eu gosod drwy'r adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd cyfarwyddiadau ar gyfer allanfeydd mewn argyfwng i'w gweld yn amlwg ac roedd y poster iechyd a diogelwch wedi cael ei arddangos yn glir.

Gwelsom fod yr holl gemegau'n cael eu cadw'n ddiogel ac nad oedd unrhyw gemegau'n cael eu cadw mewn ardaloedd cyhoeddus.

Roedd gan y practis system ar waith i reoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract yn eu lle ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus

(clinigol) a gwastraff nad oedd yn beryglus (cartref). Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y bagiau oren cywir yn cael eu defnyddio yn yr ystafelloedd triniaeth yn unol â'r dull cywir o waredu. Gwelsom fod pob eitem arall o wastraff wedi'i rhannu i'r bagiau / cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull cywir o waredu.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Cynghorwyd y practis i sicrhau fod bin gwaredu cynnyrch misglwyf yn cael ei ddarparu yn nhoiled y staff a bod unrhyw finiau'n cael eu disodli â biniau pedal.

Dylai'r practis sicrhau fod y bagiau oren cywir yn cael eu defnyddio yn yr ystafelloedd triniaeth ar gyfer gwaredu gwastraff clinigol peryglus.

#### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol ar gyfer glanhau a diheintio (dadheintio) offer deintyddol fel sy'n cael ei argymhell gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Dangosodd staff y broses ddadheintio a gwelsom dystysgrifau yn dangos fod yr holl staff clinigol wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio.

Fodd bynnag, nodwyd bod y ffan echdynnu wedi ei lleoli ar ochr lân yr ystafell ddadheintio, sy'n creu'r llif aer anghywir. Argymhellwyd i'r practis y dylent ystyried adolygu lleoliad y ffan i fod yn unol â chanllawiau WHTM 01-05. Dywedodd y practis wrthym fod cynlluniau ar droed i ailwampio'r ystafell ddadheintio.

Gwelsom gofnodion oedd yn dangos fod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau yn flynyddol fel sy'n cael ei argymhell gan WHTM 01-05.

Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol ar waith i leihau'r risg o groesheintio i ddiogelu cleifion a staff. Nodwyd hefyd bod yr offerynnau deintyddol yn cael eu storio yn unol â pholisi dadheintio presennol y practis.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis adolygu lleoliad y ffan echdynnu er mwyn sicrhau'r llif aer cywir.

#### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion ac arddangoswyd y rhain mewn ardaloedd perthnasol.

Gwelsom gofnodion yn dangos bod y tîm wedi derbyn yr holl hyfforddiant perthnasol. Roedd y cyffuriau ar gyfer argyfwng yn cael eu cadw mewn lleoliad sy'n sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Fodd bynnag, nid oedden nhw'n cael eu cadw mewn cwpwrdd dan glo a chynghorwyd y practis i ystyried gosod clo ar y cwpwrdd er mwyn gwella diogelwch. Argymhellwyd hefyd fod y padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel yn y sêff dros nos; cytunodd y practis i wneud hyn. Gwelsom dystiolaeth fod system effeithiol ar waith i wirio'r cyffuriau argyfwng er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio.

Fodd bynnag, nodwyd nad oedd masg ocsigen maint plentyn, ambu-bag plentyn a llwybr anadlu maint '4' ar gael yn y pecyn oedd gan y practis. Cafodd ein pryderon ynghylch y pecyn argyfwng eu datrys yn ystod yr arolygiad. Darperir manylion y gwelliannau ar unwaith a nodwyd gennym yn Atodiad A.

Roedd gan yr holl staff clinigol hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) cyfredol ac roedd gan y practis un swyddog cymorth cyntaf penodedig.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid cadw padiau presgripsiwn yn ddiogel yn y sêff yn y nos.

#### Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith oedd yn cwmpasu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Nid oedd tystysgrif hyfforddiant ar gyfer amddiffyn oedolion ar gyfer un o'r nyrsys deintyddol ar gael i ni ei gweld ar ddiwrnod yr arolygiad. Hefyd, roedd angen i un nyrs ddeintyddol adnewyddu ei hyfforddiant unwaith iddi ddychwelyd ar ôl absenoldeb mamolaeth. Gwelsom fod pob aelod arall o staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Cadarnhawyd fod yr holl staff perthnasol wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt wiriadau dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid sicrhau bod pob aelod o staff wedi'i hyfforddi mewn amddiffyn oedolion agored i niwed.

#### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Edrychwyd ar yr ystafelloedd triniaeth a gwelwyd eu bod yn cynnwys offer priodol ar gyfer sicrhau diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Nodwyd fod yr ystafelloedd triniaeth wedi'u dylunio a'u trefnu i helpu'r tîm i weithio'n effeithlon ac roedden nhw'n amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da.

Roedd yr holl offer radiolegol yn cael eu cynnal a'u cadw ac mewn cyflwr gweithio da. Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw archwiliadau sicrhau ansawdd wedi'u cynnal ac argymhellwyd i'r practis y dylid cynnal archwiliadau ar sail flynyddol.

Roedd angen i hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio un nyrs ddeintyddol gael ei adnewyddu ac fe wnaeth y practis drefnu'r hyfforddiant ar unwaith ar y cwrs nesaf oedd ar gael. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio cyfoes ar gyfer yr holl staff clinigol eraill.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid anfon y dystysgrif hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio wedi'i hadnewyddu ar gyfer un o'r nyrsys deintyddol at AGIC.

Dylid cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd o'r pelydrau-X yn flynyddol.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi cynnal archwiliad WHTM 01-05 o'i drefniadau dadheintio yn ddiweddar ac fe'n hysbyswyd bod y practis wedi cynnal archwiliad o gofnodion clinigol yn ystod 2015. Fodd bynnag, ni welsom fod gan y practis raglen ar waith ar gyfer cynnal amrywiaeth eang o archwiliadau clinigol gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella. Rydym yn argymhell bod y practis yn gweithredu rhaglen o archwiliadau ar draws y flwyddyn.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid rhoi amrywiaeth o archwiliadau clinigol ar waith gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd trefniadau storio ffeiliau cleifion yn briodol i sicrhau diogelwch data personol. Roedd pob ffeil electronig yn cael ei chadw'n rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn synhwyrol. Roedd polisi diogelu data ar waith.

### **Cadw cofnodion**

Roedd tystiolaeth bod y practis yn cadw cofnodion clinigol da iawn, sy'n dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i safon uchel i sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Archwiliwyd sampl o gofnodion cleifion a gwelwyd bod cofnodion yn cynnwys digon o wybodaeth ynghylch trafodaethau a gynhaliwyd am opsiynau triniaeth, costau, risgiau a manteision a sut y cafwyd caniatâd y claf. Hefyd, roedd tystiolaeth o gynllunio triniaeth trwy roi cynlluniau triniaeth i gleifion. Roedd y deintydd yn cofnodi bod sgrinio canser wedi digwydd a bod cyngor rhoi'r gorau i ysmegu wedi'i roi.

### **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth**

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Roedd ystod o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Roedd tîm y staff yn ymddangos yn hapus yn eu rolau ac yn fedrus wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Mae Practis Deintyddol Bae Cemaes yn dan berchnogaeth a rheolaeth un deintydd ac fe'i cefnogir gan dîm o ddeintyddion a nyrsys deintyddol.

Dywedodd staff y siaradwyd â nhw yn ystod ein harolygiad eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddogaethau gan yr holl aelodau o dîm y practis. Gwelsom fod y staff yn glir a gwybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Dyweddodd staff wrthym eu bod yn cyfathrebu yn y practis yn dda a'u bod yn teimlo y gallent drafod unrhyw faterion gyda phob aelod o'r tîm.

## **Staff ac adnoddau**

### **Gweithlu**

Gwelsom fod ffolderi ymsefydlu staff wedi'u cwblhau a bod y rhain wedi'u trefnu'n dda. Roedd gan bob aelod o staff fynediad at bolisiâu a gweithdrefnau.

Gwelsom fod gan staff fynediad at amrywiaeth eang o hyfforddiant, gan fodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus, er bod angen i un aelod o staff adnewyddu ei hyfforddiant amddiffyn oedolion agored i niwed ac ymbelydredd ïoneiddio. Hefyd, gwelsom dystiolaeth o werthusiadau staff blynyddol a chyfarfodydd tîm rheolaidd.

Roedd y tri deintydd oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwelsom eu tystysgrifau AGIC wedi'u harddangos yn amlwg y tu ôl i'r dderbynfa fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom gofnodion sy'n ymwneud â statws imiwneiddio Hepatitis B y deintyddion a'r nyrsys deintyddol sy'n gweithio yn y practis.

Edrychwyd ar y polisiâu a gweithdrefnau oedd ar waith a gwelwyd eu bod yn adlewyrchu arfer gwirioneddol. Roedd yr holl bolisiâu a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cynnwys dyddiadau adolygu a/neu fersiynau a reolir. Fodd bynnag, cynghorwyd y practis i gyflwyno system i gynnwys llofnodion staff er mwyn dangos fod y rhain wedi cael eu darllen a'u deall gan yr holl staff.

Gwelsom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt mewn argyfwng ac amseroedd agor y practis ar y fynedfa i'r safle. Roedd enwau'r deintyddion a'u cymwysterau hefyd yn cael eu harddangos yn amlwg.



## 4. Beth sydd nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad, sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon sydd angen sylw ar unwaith mewn perthynas â diogelwch cleifion, lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i roi sylw i'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, ceir rhybudd cyn arolygiadau o bractisau deintyddol. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at ddeuddeg wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr practisau ar ddiwedd yr arolygiad, a hynny mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Mae unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi ei gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Amlygu Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau proffesiynol a chanllawiau perthnasol eraill fel [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| <b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>   | <b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion</b> | <b>Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder</b>                                      | <b>Sut y cafodd y pryder ei ddatrys</b>   |
|---|---|--|---|
| Gwelwyd nad oedd masg ocsigen maint plentyn, ambu-bag plentyn a llwybr anadlu maint '4' ar gael yn y pecyn argyfwng oedd gan y practis. | Roedd hyn yn golygu fod plant mewn perygl mewn argyfwng.    | Fe wnaethom ddwyn hyn i sylw staff, a drefnodd i'r eitemau gael eu prynu ar unwaith. | Fe archebodd staff yr eitemau ar unwaith ar ddiwrnod ein hymweliad, i'w danfon ar gyfer y diwrnod canlynol. |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Practis Deintyddol Bae Cemaes

**Dyddiad yr arolygiad:** 9 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith        | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|-------|-------------------------------|------------------|----------|
| Ni nodwyd unrhyw faterion sicrwydd ar unwaith |       |                               |                  |          |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Practis Deintyddol Bae Cemaes

**Dyddiad yr arolygiad:** 9 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella  | Safon                                   | Camau gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol | Amserlen                      |
|--|---|---|------------------|-------------------------------|
| <b>Ansawdd profiad y claf</b>  |   |   |                  |                               |
| Dylid sganio ffurflenni hanes meddygol (ynghyd â ffurflenni FP17) i mewn i nodiadau clinigol unigol. | 6.1 Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth | Cedwir dogfennau a lluniau bellach drwy feddalwedd rheoli'r practis.  | DJ Meacher       | Cwblhawyd                     |
| Dylai'r practis gyhoeddi / arddangos dadansoddiad o adborth cleifion.                                | 6.3 Gwrando a dysgu o adborth           | Mae adborth ffurfiol ac anffurfiol gan gleifion eisoes yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod staff misol. Yn y dyfodol, bydd dadansoddiad priodol yn cael ei gyhoeddi yn yr ystafell aros. | DJ Meacher       | Arddangos erbyn<br>31/07/2017 |
| <b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>   |   |   |                  |                               |
| Dylai'r practis sicrhau fod bin gwaredu cynnyrch misglwyf yn cael ei ddarparu yn                     | 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a         | Mae bin cynnyrch misglwyf wedi'i roi yn y toiled staff ac mae'r holl finiau bellach   | DJ Meacher       | Cwblhawyd                     |

| Yr hyn y mae angen ei wella   | Safon   | Camau gweithredu'r gwasanaeth  | Swyddog cyfrifol | Amserlen                     |
|---|---|--|------------------|------------------------------|
| <p>nhoiled y staff a bod unrhyw finiau'n cael eu disodli â biniau pedal.</p> <p>Mae'n rhaid i'r practis sicrhau fod y bagiau oren cywir yn cael eu defnyddio yn yr ystafelloedd triniaeth ar gyfer gwaredu gwastraff clinigol peryglus.</p> | diogelwch   | <p>yn finiau pedal.</p> <p>Defnyddir bagiau oren ym miniau gwastraff clinigol yr ystafelloedd triniaeth i drosglwyddo gwastraff i'r bagiau oren mawr sydd eisoes yn cael eu defnyddio ar gyfer gwaredu terfynol.</p> | DJ Meacher       | Cwblhawyd                    |
| Dylai'r practis adolygu lleoliad y ffan echdynnu yn yr ystafell ddadheintio er mwyn sicrhau'r llif aer cywir.   | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio             | Bydd system awyru newydd gyda ffaniau y gellir eu rheoli o bell yn galluogi llif aer sy'n cydymffurfio'n llawn.  | DJ Meacher       | I'w gwblhau erbyn 31/12/2017 |
| Dylai padiau presgripsiwn gael eu cadw'n ddiogel yn y sêff yn y nos.  | 2.6 Rheoli meddyginiaethau                          | Mae padiau presgripsiwn bellach yn cael eu storio yn y sêff.   | DJ Meacher       | Cwblhawyd                    |
| Dylid sicrhau bod pob aelod o staff wedi'i hyfforddi mewn amddiffyn oedolion agored i niwed.  | 2.7 Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl      | Bydd pob aelod o staff sydd angen hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion agored i niwed yn cael ei roi ar y cwrs nesaf sydd ar gael.   | DJ Meacher       | I'w gwblhau erbyn 31/07/2017 |
| Dylid anfon y dystysgrif hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio wedi'i hadnewyddu ar gyfer un o'r nyrsys deintyddol at AGIC.  | 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol | Mae'r nyrs dan sylw yn cydymffurfio â gofynion datblygiad proffesiynol parhaus y Cyngor Deintyddol Cyffredinol tan ddiwedd ei chylch cyfredol ym mis Awst 2018. Fodd bynnag, roedd y cwrs                            | DJ Meacher       | I'w gwblhau erbyn 31/07/2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella   | Safon                                   | Camau gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol | Amserlen  |
|---|---|---|------------------|---|
| Dylid cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd yn flynyddol.   |   | blaenorol dros bum mlynedd yn ôl ac mae lle wedi'i gadw ar ei chyfer ar gwrs Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) i'w gwblhau cyn gynted â phosibl.<br><br>Bydd archwiliad radiograffeg yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Medi 2017. | DJ Meacher       | 30/09/17  |
| Dylid rhoi amrywiaeth o archwiliadau clinigol ar waith gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella. | 3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol | Cynhelir archwiliadau clinigol ar adegau priodol.   | DJ Meacher       | Archwiliad cyntaf i'w gwblhau erbyn 1 Ebrill 2018 |
| <b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>  |   |   |                  |   |
| Amherthnasol  |   |   |                  |   |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth: David Meacher**

**Enw (llythrennau bras): D J Meacher**

**Swydd: Cyfarwyddwr**

**Dyddiad: 09/06/2017**